# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 10 Mawrth 2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 10 Mawrth 2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 17 Mawrth 2025 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC – Pryniant 91 Ffordd Farrar, Bangor**

**PENDERFYNIAD**

I brynu'r eiddo adnabyddir fel 91 Ffordd Farrar, Bangor ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant am ddarpariaeth Tai gofal i bobl ifanc sydd ar fin gadael gofal, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Efan Thomas MRICS<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | **10/03/2025** |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | P. J. Row |

**Pwnc :**

Pryniant 91 Ffordd Farrar, Bangor

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu 'r eiddo adnabyddir fel 91 Ffordd Farrar, Bangor ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant am ddarpariaeth Tai gofal i bobl ifanc sydd ar fin gadael gofal, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Galluogi'r Adran Plant i wireddu darpariaeth Cartrefi Bychan yn unol a'r Flaenoriaeth Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo'r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedig Mai 2015.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae gan Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd rhaglen ar gyfer plant mewn gofal gan gynnwys y prosiect Cartrefi Grŵp Bychain. Er nad yw'r pryniant hwn yn rhan uniongyrchol o'r prosiect hwnnw mae angen edrych ar ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae strategaeth gomisiynu'r adran yn cynnwys rhoi blaenoriaeth i ddatblygu mwy o ddewis llety ar gyfer pobl ifanc sydd yn gadael gofal. Bydd y pobl ifanc yma yn unigolion sydd yn trosi i oed oedolion, ac felly'n gadael gofal llawn amser y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd, neu yn unigolion ifanc sydd wedi cyrraedd y wlad heb unrhyw gymorth a chefnogaeth.

Mae'r datblygiad yma yn rhan o strategaeth i ddatblygu dewis lleol o leoliadau preswyl i blant a phobl ifanc Gwynedd ac yn cyd-fynd gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat wrth ddarparu cartrefi i blant sy'n derbyn gofal.

Mae 91 Ffordd Farrar, Bangor, wedi ei adnabod fel eiddo addas ar gyfer ei drosi'n gartref bychan gan ystyried ffactorau megis ei leoliad, maint a gosodiad.

Fel trefniant interim, bydd y pryniant i gael ei ariannu o raglen gyfalaf yr Adran Plant, ac mae cadarnhad wedi'i dderbyn gan Llywodraeth Cymru y bydd costau'r pryniant i gael ei ad-dalu o gronfa Tai Gyda Gofal. Mae ymrwymiad hefyd wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru i gyfarch y costau addasu o'r gronfa hono.

Nid oes unrhyw fwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid – Dewi Morgan –** "Rwyf yn fodlon fod ffynhonnell ariannu yn ei le ar gyfer y pryniant yma. Nid oes felly gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

**Swyddog Monitro – Iwan Evans** – "Gan nodi fod trefniadau mewn lle i ariannu y pryniant dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"


**Aelod/au Lleol –**

**Cynghorydd Huw Wyn Jones** –

"Cant a cant yn gefnogol o'r cynllun"

**Cynghorydd Richard Medwyn Hughes** –

"Iawn cytuno"




# 91 Farrar Road, Bangor

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd